CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor • Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog • Heol Wynne •
Blaenau Ffestiniog • Gwynedd • LL41 3UF
☎ 01766 832 398 ✉ clerc@cyngortrefffestiniog.cymru

# AGENDA Cyfarfod Blynyddol

• 28/05/2024 • 19:00 • Cyfarfod yn y Siambr ac ar Zoom

---

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A]**

**NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog, a hefyd arlein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

**YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**Drwy feddalwedd Zoom ar:**

https://us02web.zoom.us/j/88100086965?pwd=SzVGelAramxXb0tnUWpubmdnTTExdz09

**Meeting ID: 881 0008 6965**
**Passcode: 724145**

**NOS FAWRTH 28ain MAI 2024 AM 7.00PM**

**AT GADEIRYDD A CHYNGHORWYR**
**CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU CYFARFOD BLYNYDDOL**
**CYNGOR TREF FFESTINIOG**
**28ain MAI 2024**

**MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

**1.** Ethol Cadeirydd Cyngor Tref Ffestiniog am y flwyddyn 2024-2025.

**2.** Derbyn Datganiad Derbyn Swydd y Cadeirydd

**3.** Os bydd y sawl a etholwyd yn Gadeirydd yn absennol, penodi Cadeirydd i'r cyfarfod.

**4.** Derbyn Ymddiheuriadau

**5.** Datganiad o Ddiddordeb – Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol ar gael yn y cyfarfod.

**6.** Ethol Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2024-2025.

**7.** Derbyn Datganiad Derbyn Swydd Is-Gadeirydd

**8.** Trafod cylch gorchwyl Pwyllgorau'r Cyngor Tref

**9.** Penodi aelodau ac ethol Cadeirydd Pwyllgorau

a) Pwyllgor y Cyngor Tref
b) Pwyllgor Adnoddau
c) Pwyllgor Mwynderau
ch) Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio
d) Pwyllgor Staffio
dd) Pwyllgor Digwyddiadau

**10.** Cadeiryddion Pwyllgorau

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o'r farn bod Cynghorau yng Ngrŵp A (rhai gyda phraesept mwy na £200,00) yn debygol o fod â nifer fwy o bwyllgorau, sy'n adlewyrchu eu lefel gweithgarwch; ac mae felly'n gorchymyn bod taliad yn cael ei wneud am gyflawni Uwch-rolau. Ail-gytuno pa Gynghorwyr sy'n derbyn taliad blynyddol, sef:

Lwfans Sylfaenol (ar gael i bob Cynghorydd os yw'n dymuno derbyn y swm) - £156
Cadeirydd Cyngor Tref Ffestiniog – hyd at £1500
Is-gadeirydd – Hyd at £500

**11.** Enwebu a phenodi Cynghorwyr i gyrff allanol.

a) Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan Cymdeithasol
b) Neuadd Ffestiniog
c) Partneriaeth y Parc
ch) Siambr Fasnach a Thwristiaeth Bro Ffestiniog
d) Grŵp Rhanddeiliaid y Safle – Trawsfynydd
dd) Bwrdd Rheoli Antur Stiniog
e) Cwmni Bro
f) Ynni Twrog

**12.** Cadarnhau cynrychiolaeth ar Fyrddau Llywodraethwyr Ysgolion Lleol

a) Ysgol Maenofferen
b) Ysgol Manod
c) Ysgol Bro Tan Gelli

**13.** Mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog

Atodir Rheolau Sefydlog enghreifftiol newydd i chi eu hystyried a phenderfynu ar eu mabwysiadu. Maent wedi eu cynhyrchu gan Un Llais Cymru. Gofynnir i chi ystyried os ydych eisiau i'r Cyngor Tref fabwysiadu'r rhain at y dyfodol.

**14.** Mabwysiadu'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr

**15.** Mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol

**16.** Adolygu'r Gofrestr Asesiad Risg Cyfrifon y Cyngor Tref


**17.** Cofrestr Buddiannau Aelodau

**18.** Derbyn Copi o Bolisi Yswiriant Adeilad gan Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog

**19.** Archwilio unrhyw weithredoedd a dogfennau ymddiriedolaeth sydd yng ngofal y Cyngor os yn berthnasol.

**20.** Adolygu polisïau'r Cyngor Tref neu osod amserlen i wneud hynny.

20a) Polisi Cyfle Cyfartal
20b) Polisi Pensiynau
20c) Polisi Amgylcheddol
20ch) Gweithdrefn Cwynion
20d) Polisi Mamolaeth
20dd) Polisi Mabwysiadu
20e) Polisi Salwch
20f) Cynllun Cyhoeddi



Sioned Graham-Cameron
Clerc y Dref
DYDDIAD 21 MAI 2024